

Cynulliad ar yr Hinsawdd Ysgolion Bro Ffestiniog



CREU • CYMUNEDAU • GWYRDD

GWYRDDNI

COMMUNITY • CLIMATE • ACTION



CEFNDIR

Mae GwyrddNi yn fudiad gweithredu ar newid hinsawdd sydd wedi ei leoli yn y gymuned ac yn cael ei arwain gan y gymuned. Mae'n dod â phobl ynghyd mewn pum ardal yng Ngwynedd i drafod, dysgu a gweithredu yn lleol ar newid hinsawdd.

Er mwyn canfod mwy am GwyrddNi ewch i'n gwefan:

<https://www.gwyrddni.cymru/>

Fel rhan o'r gwaith hwn mae GwyrddNi wedi bod yn cydweithio ag ysgolion ardaloedd GwyrddNi i gynnal rhaglen addysg i gyd fynd ag ethos a thema'r gwaith yn y gymuned.

Yn ardal Bro Ffestiniog rydym wedi bod yn gweithio gydag Ysgol Y Moelwyn, Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys, ac Ysgol Bro Hedd Wyn.

Mae'r rhaglen addysg wedi ei dylunio gyda chwe chymal:

- Gweithdy yn yr ysgol am Newid Hinsawdd
- Cylchdaith o amgylch y gymuned i brofi rhai o'r datrysiadau hinsawdd sydd ar y gweill yn lleol
- Cynulliad ar yr Hinsawdd
- Cyflwyno canfyddiadau'r Cynulliad Ysgolion i'r Cynulliad Cymunedol
- Gweithredu ar yr hinsawdd
- Dathliad o'r hyn sydd wedi ei gyflawni

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion sy'n rhan o'r cynllun am eu cydweithrediad brwd.

GWEITHDY

Yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf 2022 buom yn cynnal gweithdy am Newid Hinsawdd gydag ysgolion Y Moelwyn, Bro Cynfal, Edmwnd Prys a Bro Hedd Wyn.

Nod y gweithdy oedd sicrhau ein bod ni'n:

- Sylwi ar wahanol elfennau o'n cymunedau a sut maent yn gysylltiedig
- Deall beth oedd yr effaith tŷ gwydr
- Deall y cylch carbon
- Deall sut mae llosgi tanwydd ffosil a pheidio edrych ar ôl y byd naturiol yn cynyddu'r effaith tŷ gwydr a thrwy hynny yn achosi cynhesu byd eang.

- Deall mai cynhesu byd eang sy'n achosi'r newid hinsawdd rydym yn ei brofi ar hyn o bryd.
- Ystyried sut mae newid hinsawdd yn effeithio pobl o amgylch y byd gan gynnwys ni yma yng Nghymru.
- Deall byddai canfod ffyrdd o fyw sy'n golygu nad ydym yn llosgi tanwydd ffosil ac yn golygu ein bod yn edrych ar ôl y byd naturiol yn gwneud cyfraniad mawr at arafu a lleihau effeithiau newid hinsawdd ar ein cymunedau.
- Teimlo'n gyfforddus yn trafod teimladau ynghylch newid hinsawdd a sylwi fod posib trosi teimladau negatïf yn rai positif wrth weithredu.

Dyma rai lluniau o'r gweithdai ar draws ardaloedd GwyrddNi.



CYLCHDAITH

Yn ystod tymor yr hydref 2022 bu cyfle i blant a phobl ifanc GwyrddNi brofi rhai o'r datrysiadau hinsawdd sydd eisoes ar y gweill yn ein cymunedau.

Nod y cylchdeithiau oedd sylwi:

- Ei fod yn bosib ymateb i'r argyfwng hinsawdd.
- Ei fod yn bosib ymateb i'r argyfwng hinsawdd yma ym Mro Ffestiniog a chael blas ar yr ymatebion sydd wedi eu datblygu hyd yma.
- Nad oes un datrysiad i'r argyfwng hinsawdd ond yn hytrach amryw helaeth o ddatrysiadau.
- Bod ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn gymunedol hefyd yn cyfrannu nifer o fuddion eraill i ni fel unigolion ac i'n cymunedau.

Ym Mro Ffestiniog buom yn ymweld neu gymryd rhan mewn gweithdy gyda:

- Mynydd Cribau
- Coedlan Cymunedol
- Gorsaf Hydro Pant yr Afon
- Storfa goed cymunedol
- Ceir cymunedol trydanol
- Siop Galw Mewn y Dref Werdd
- Prosiectau tyfu bwyd lleol.

Diolch yn fawr iawn i holl staff a gwirfoddolwyr Cwmni Bro Ffestiniog, Y Dref Werdd, Greaves Welsh Slate, ac Antur Stiniog am sicrhau llwyddiant y Cylchdeithiau.

Gallwch weld ffilm fer am y Cylchdaith gan BroCast Ffestiniog ar You Tube yn fan hyn: [Menter Bro: Cylchdaith Gwyrddni](#)



CYNULLIAD

Cynhaliwyd Cynulliad Bro Ffestiniog yn Ysgol Y Moelwyn ar y 19eg o Ionawr 2023.

Daeth 50 blant a phobl ifanc o Ysgol Y Moelwyn, Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys, ac Ysgol Bro Hedd Wyn i'r Cynulliad.

Nod y cynulliad oedd:

- Ystyried a nodi beth sy'n bwysig inni yn ein cymunedau.
- Gweledigaethu dyfodol lle'r rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd.
- Datblygu syniadau fydd yn ein helpu i gyrraedd y dyfodol yna.

Gwnaethom hyn drwy:

- Fel unigolion, meddwl a thynnu llun o'r holl lefydd yn ein cymuned sydd fwyaf pwysig i ni a'u gosod ar fap o'r Fro.
- Fel unigolion, dychmygu dyfodol lle'r rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd. Rhannu hyn efo'n grŵp er mwyn canfod elfennau o'r weledigaeth oedd gennym yn gyffredin â gweddill y grŵp. Rhannu'r rhain a'u cofnodi gyda gweddill y Cynulliad fel bod modd creu darlun ar y cyd o'r dyfodol rydym yn dymuno byw ynddo.
- Fel grŵp, gweithio ar ddatblygu syniadau fydd yn ein helpu i sicrhau fod elfen benodol o'r weledigaeth yn dod yn wir a'u cofnodi ar pro-forma arbennig.



Hoffwn ddiolch i Ysgol Y Moelwyn am gynnal y Cynulliad.

CANFYDDIADAU'R CYNULLIAD

Dyma ganfyddiadau Cynulliad Ysgolion Bro Ffestiniog.

Y pethau yn ein cymunedau sy'n bwysig i ni:

Rhain ydy'r pethau rydym eisiau eu cadw wrth inni ymateb i her yr hinsawdd yn ein cymunedau. Yn ogystal, gallai'r pethau yma ein helpu i symud i'r math o dyfodol rydym yn ei ddymuno.



Ein ysgolion

Parciau ein pentrefi a'n tref.

Cae Bryn Coed.

Caeau peldroed ein pentrefi a'n tref.

Ein clybiau peldroed.

Y Clwb Rygbi.

Y clwb nofio.

Chippy a Kebab Blaenau.

Siop Glyndwr Traws.

Coed Tai Gelli a Maes y Garth.

Cefna Sgwar, 'Green Hill' Gellilydan.

Clybiau Celf a Drama Gellilydan.

Sioe Traws, Ffair Llan a Noson Goleuo.

Yr Eglwys wrth ymyl Co-op.

Capel Bach Traws.

Y Tren yn Blaenau

Ein tir ac anifeiliaid fferm

Guto Jones sy'n byw yn top Trawsfynydd.

Ein ffrindiau.

Ein gweledigaeth o'n cymuned yn 2040:

Dyma fydd ein cymuned pan fyddwn wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymateb i her yr hinsawdd.

Bydd bywyd yn well ac yn iach a gyda llai o broblemau economaidd. Bydd pawb yn hapus.

Bydd mwy o goed a blodau a natur.

Bydd yr awyr yn iach.

Bydd mwy o ffermwyr a byddwn yn bwyta bwyd iach a lleol.

Bydd pawb yn siarad Cymraeg.

Bydd Sioe Traws yn fwy

A bydd stadiwm mawr yn Cae Clyd.

Byddwn yn gwisgo dillad gwlan rydym wedi gwneud ein hunain neu dillad digidol!

I symud o gwmpas byddwn un unai dal y bws neu dren trydanol, mynd mewn car trydan - bydd rhai o rhain yn hedfan, neu byddwn yn defnyddio Google Maps i teledeithio i le da ni eisiau mynd.

Fydd llai o draffig ac felly fydd yn saff i hwyaid croesi'r ffordd.

Bydd melinau gwynt ar bob adeilad, a byddwn yn gwresogi ein tai gyda gwres o grombil y ddaear.

Byddwn hefyd yn creu trydan gan ddefnyddio dwr.

Byddwn yn defnyddio mwy o dechnoleg a bydd robotiaid sy'n gwneud pethau drosom.

Bydd deinosoriaid a rhywogaethau prin yn ffynnu yma ym Mro Ffestiniog.

A Bydd Bryn Coed yn sparclo efo goleadau solar.



Ein syniadau gweithredu fydd yn ein helpu i gyrraedd y dyfodol uchod:

Creu canolfan ymchwil yn y Blaenau i ddyfeisio peiriant amser er mwyn gallu mynd yn nôl ac atal cynhesu byd eang a newid hinsawdd.

Datblygu Hydro cymunedol yn Llyn Manod

Datblygu cwmni creu trenau trydan allan o blastig wedi ei ailgylchu ar safle Rehau



Creu mwy o warchodfeydd natur yma ym Mro Ffestiniog.

Dyfeisio peiriant plannu coed fel ein bod ni'n gallu plannu mwy ohonynt a plannu mwy o goed yn cae Bryn Coed.

Sicrhau fod Bro Ffestiniog yn warchodle ar gyfer bywyd gwyllt.

Cwmni Bro, Y Cyngor, busensau ac unigolion i gydweithio i osod paneli solar a melinau gwynt ar bob adeilad a golau stryd.

Datblygu Sioe Traws - cael cae mwy, arddangos tractors trydan, cathod, a mini defaid, cael lle chwarae yno, a sicrhau gwell hysbysebu.

Cydweithio gyda ffermwyr ac ail sefydlu'r melinau gwlan (neu bosib creu un mawr newydd ar hen safle pwerdy Traws) i gynhyrchu gwlan lleol ar gyfer dillad.

Ail ddefnyddio hen ddillad i neud dillad newydd.

Dyfeisio ffordd i greu dillad digidol yma ym Mro Ffestiniog.

Codi sbwriel.

Adeiladu mwy o lwybrau saff i gerdded a beicio ar draws Bro Ffestiniog, gan ddefnyddio adeiladwyr lleol i neud y gwaith.

Tyfu llysiau ar y Green yn Gellilydan.

Gwerthu cymunedol yn Nhrawsfynydd.

Dyfeisio a chynyrchu robotiaid wedi eu gwneud o blastig wedi ei ailgylchu sy'n gallu helpu gyda tasgau yma ym Mro Ffestiniog.

Adeiladu stadiwm chwaraeon eco gyfeillgar yn Cae Clyd.

CYFLWYNO I'R CYNULLIAD CYMUNEDOL

Cyflwynwyd canfyddiadau'r Cynulliad Ysgolion i Gynulliad Cymunedol Bro Ffestiniog ar yr 26ain o Ionawr 2023 gan ddisgyblion o Ysgol Y Moelwyn, Ysgol Bro Cynfal, Ysgol Edmwnd Prys, ac Ysgol Bro Hedd Wyn.



Roedd y Cynulliad yn falch iawn o glywed barn, dyheadau a syniadau'r plant a phobl ifanc.

"Roedd yn wych clywed gan blant yr ysgolion lleol i ddeall eu gobeithion a'u gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Roeddwn yn arbennig o falch o glywed eu bod wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd adfer natur fel rhan o'u syniadau - roedd hyn wedi'i golli yn y cynulliad gwreiddiol gan ein bod wedi gorfod ei gyfyngu i 4 prif bwnc. Roedd eu brwdfrydedd a'u didwylledd yn amlwg yn eu cyflwyniad, roedd yn amlwg eu bod wedi rhoi llawer o feddwl a gwaith i mewn iddo". Meg - aelod Cynulliad

Defnyddiwyd syniadau'r plant a phobl ifanc fel sail i ddatblygu syniadau'r Cynulliad i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Hinsawdd Bro Ffestiniog yn ystod y Cynulliad Cymunedol. Gweler yr adroddiad o'r cyfarfod hwn o'r Cynulliad Cymunedol yn fan hyn: <https://www.gwyrddni.cymru/bro-ffestiniog-cynulliad-3/>

CAMAU NESAF

Bydd plant a phobl ifanc, ac ysgolion, GwyrddNi yn edrych ymlaen at weld sut fydd syniadau'r plant yn chwarae rhan wrth i'r Cynulliad datblygu cynllun gweithredu hinsawdd ar gyfer yr ardal.

Yn ogystal byddwn yn mynd ati i weithredu cymalau olaf y rhaglen addysg sef gweithredu ar yr hinsawdd a dathlu'r hyn sydd wedi ei gyflawni dros y flwyddyn diwethaf.

Bydd modd i chi gadw golwg ar y datblygiadau hyn ar [safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol](#) GwyrddNi.